



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2019 am 10.30 am ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Norris Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Lewis Y Cyngorydd C Leyshon

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Llywodraethol a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr D James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Ms M Warburton, Ymgynghorydd Adnoddau Dynol – Carfan Materion Cydraddoldeb ac Amrywioldeb
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor

123 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

124 COFNODION

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 14.02.19, yn rhai cywir.

125 HUNANASESIAD CORFFORAETHOL A HUNANASESIAD O WASANAETHAU'R CYNGOR

Rhoddodd y Prif Weithredwr fanylion i Aelodau'r Cabinet ynglŷn â'r hunanasesiadau corfforaethol a'r hunanasesiadau gwasanaeth y mae'r meysydd gwasanaeth wedi'u cynnal am y 4^{edd} flwyddyn yn olynol. Nododd y Prif

Weithredwr fod y broses yn canolbwyntio ar effaith a deilliannau'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflawni. Mae'r rhain, yn eu tro, yn arwain at welliannau.

Cafodd yr Aelodau wybod fod yr hunanasesiad corfforaethol yn seiliedig ar y cwestiynau mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu gofyn i awdurdodau lleol yn rhan o archwiliadau Aseiad Corfforaethol Swyddfa Archwilio Cymru. Ymatebodd Swyddfa Archwilio Cymru yn gadarnhaol iawn i hyn.

Cafodd yr aelodau eu cyfeirio at adran 6 yr adroddiad, sy'n amlinellu meysydd blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cyngor yn y dyfodol.

I gloi, dywedodd y Prif Weithredwr fod yr asesiadau'n adnodd defnyddiol a fyddai'n helpu i lywio trefniadau cynllunio gwelliannau'r Cyngor yn well er mwyn sicrhau ei fod e'n darparu gwasanaethau mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Soniodd yr Arweinydd am y broses hunanasesu, gan nodi bod yr asesiadau'n cael eu herio gan y Prif Weithredwr a'r Aelodau Cabinet perthnasol. Nododd e fod y broses yn hwyluso deialog defnyddiol i'r ddau gyfeiriad ac yn rhoi darlun clir o waith a chynlluniau pob gwasanaeth. Er iddi fod yn broses hir, nododd yr Arweinydd ei bod hi'n fuddiol iawn i bawb sy'n cymryd rhan, gan sicrhau deilliannau clir o ran gwelliant er budd trigolion Rhondda Cynon Taf.

Atgyfnerthodd y Dirprwy Arweinydd werth y broses.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Bod yr hunanasesiad corfforaethol yn adlewyrchiad cywir a thrylwyr o sefyllfa'r Cyngor a'i wasanaethau.
2. Bod y Prif Weithredwr yn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad fel bod modd ei adolygu yn eu cyfarfod nesaf.
3. Bod y meysydd i'w gwella sydd wedi'u nodi yn yr hunanasesiadau corfforaethol a'r hunanasesiadau gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2018. Caiff hwn ei archwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

126 ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2017/18

Rhoddodd y swyddog Cydraddoldeb ac Amrywioldeb wybodaeth i Aelodau'r Cabinet am Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor am y flwyddyn 2017/18.

Cafodd Aelodau'r Cabinet eu cyfeirio at Atodiad 1 lle roedd yr adroddiad cydraddoldeb ar gyfer 2017/18 i'w weld. Esboniodd y swyddog fod yr Adroddiad Blynyddol yma wedi cael ei ddatblygu er mwyn cyflawni dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor i gofnodi ei gynnydd o ran cyflawni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol. Esboniodd y swyddog fod ymatebion cadarnhaol wedi dod i law oddi wrth holl feysydd gwasanaeth y Cyngor a byddai'r meysydd sydd angen eu gwella yn parhau i gael eu monitro.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r swyddog a'i charfan am eu gwaith caled parhaus i sicrhau bod CBS RhCT yn hyrwyddo cydraddoldeb ac

amrywiaeth ar draws pob maes gwasanaeth.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb y Cyngor 2017/18.

127 ADOLYGIAD O'R RHAGLEN GYMORTH AR GYFER MENTRAU

Cyflwynodd y Pennaeth – Materion Adfywio, Cynllunio a Thai grynodedb mewn perthynas â'r Rhaglen Gymorth ar gyfer Mentrau bresennol, sy'n cynnig cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig sy'n awyddus i ddatblygu ac sy'n ymrwymo i greu swyddi. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yn cynnig newid y meini prawf cyfredol er mwyn sicrhau bod modd i'r Rhaglen fod yn fwy hyblyg ac ymateb yn well i anghenion busnesau yn ogystal â chefnogi twf economaidd cynaliadwy. Ychwanegodd y byddai amrywiaeth ehangach o ddangoswyr cyflawniad yn cael eu cynnwys, ac y byddai modd eu defnyddio i fesur twf a'r ffordd mae'r buddsoddiad yn cyfrannu at yr economi leol, yn fwy effeithlon.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at adran 5 yr adroddiad, sy'n rhoi adolygiad o'r rhaglen gyfredol. Cawson nhw enghreifftiau o adegau pan mae'r gofynion o ran creu swydd wedi bod yn gyfyngedig iawn i ymgeiswyr posibl. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth fod rhai amgylchiadau wedi golygu nad oedd modd cefnogi cynnig haeddiannol gan na fyddai'r fenter yn cyflogi staff ychwanegol.

Cafodd manylion y diwygiadau arfaethedig i'r rhaglen eu hamlinellu ymhellach, yn ogystal â manylion y manteision i'r cynllun.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai y diwygiad i'r rhaglen, gan roi sylwadau ynglŷn â'r ansicrwydd i fusnesau bach o ran Brexit a'r manteision y byddai'r diwygiadau yn eu cyflwyno o ran annog twf busnesau. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y cyfraddau 'genedigaeth' a 'marwolaeth' busnes yn yr adroddiad, gan ddweud bod nifer y busnesau bach yn Rhondda Cynon Taf ddwbl cyfartaledd cenedlaethol Cymru.

Croesawodd yr Arweinydd y diwygiadau a'r gefnogaeth sy'n cael ei darparu i fusnesau bach i gynorthwyo gyda chynaliadwyedd.

PENDERFYNWYD:

1. Bod y meini prawf diwygiedig a nodir ym mharagraffau 6.1-6.5 yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo

128 DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED

Rhoddodd y Pennaeth Addysg yn y Gymuned drosolwg i'r Cabinet o'r gwasanaeth dysgu oedolion yn y gymuned gyda gwybodaeth am ddysgu oedolion yn y gymuned yn Rhondda Cynon Taf; yr ystod o ddarpariaeth ac sydd ar gael, ei gyfraniad i agenda ehangach y Cyngor, yr effaith y mae'n ei chael ar ddysgwyr a'r newidiadau a gynigir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Cafodd yr Aelodau wybod am y newidiadau mawr i'w cyflwyno i'r arian grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru o fis Medi 2020 ymlaen a fydd yn effeithio ar y ddarpariaeth a gynigir a dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig bod y Cabinet

yn effro i'r ffaith y gallai fod angen eu cymeradwyaeth yn y dyfodol ar gyfer unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dull llywodraethu a dysgu oedolion yn y gymuned yn y Sir.

Aeth y Pennaeth Addysg yn y Gymuned ymlaen i sôn am y ddarpariaeth gyfredol. Nododd fod nifer y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyrsiau a achredwyd wedi cyrraedd 2,860 yn 2017/18. Cafodd yr aelodau wybod bod 96% o ddysgwyr ym mlwyddyn academaidd 2017/18 wedi cwblhau eu cyrsiau, tra bod 93% wedi ennill cymhwyster. Mae'r ddau swm yma'n fwy na'r cymaryddion cenedlaethol.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes yr adroddiad a siaradodd am bwysigrwydd y ddarpariaeth a'r nifer fawr o ddysgwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet yr ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyllid, a hynny gan y byddai unrhyw un o'r fformiwlâu arfaethedig yn fuddiol i'r gwasanaeth. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at yr astudiaethau achos yn yr adroddiad a oedd yn rhoi darlun da o'r canlyniadau meddal a gyflawnwyd.

Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol a oedd unrhyw gyrsiau'n cael eu darparu ar-lein. Nododd Pennaeth Gwasanaethau yn y Gymuned fod hyn yn ystyriaeth ond oherwydd y cyrsiau mynediad agored sydd ar gael ac i osgoi dyblygu, caiff dysgwyr eu cyfeirio at y cyrsiau yma.

Holodd Arweinydd y Cyngor pryd y byddai newyddion am y fformiwlâ ariannu ar gael a gofynnodd hefyd am ddarparu cyrsiau dysgu cymunedol yn Gymraeg. Dywedodd y Pennaeth Addysg yn y Gymuned fod newyddion am yr arian ar fin cael ei gyhoeddi a nododd hefyd fod nifer fawr o gyrsiau eisoes yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, byddai modd adolygu hyn unwaith y byddai'r cyllid wedi'i gwblhau.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad.
2. Rhoi sylwadau fel y bo'n briodol ar y ddarpariaeth gyfredol o ddysgu oedolion yn y gymuned yn Rhondda Cynon Taf a'r newidiadau posibl i drefniadau ariannu yn y dyfodol.

129 STRATEGAETH GWASANAETH Y LLYFRGELLOEDD 2019-21

Trwy'r adroddiad, cafodd yr Aelodau gyfle i adolygu Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig sy'n cefnogi agenda ehangach y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd y Pennaeth Addysg yn y Gymuned at y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu blaenorol a chanlyniadau'r Arolygon Boddhad Cwsmeriaid a oedd yn dangos lefel uchel iawn o foddhad gyda gofal cwsmeriaid ym mhob agwedd ar y gwasanaeth (gyda rhwng 96% a 99% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a gawson nhw'n 'dda' neu'n 'dda iawn').

Cafodd yr Aelodau fanylion am y gwelliannau a'r gwaith adnewyddu a wnaed mewn Llyfrgelloedd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys darparu Llyfrgelloedd newydd a defnyddio'r Canolfannau Cymunedol.

Cymeradwyodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol y strategaeth a gwnaeth sylwadau ar y ffordd mae cymunedau lleol yn defnyddio'r llyfrgelloedd. Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i'r Pennaeth Gwasanaeth a staff y Llyfrgell, a wnaeth gynrychioli'r Cyngor i nifer o bobl a sicrhau canlyniadau cadarnhaol yr arolwg. Croesawodd y buddsoddiad yn y maes gwasanaeth ym mhob rhan o'r awdurdod a soniodd am natur newidiol y gwasanaeth wrth iddo addasu'n rhagweithiol i anghenion a gofynion trigolion y Fwrdeistref Sirol.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Dysgu Gydol Oes ganmoliaeth i staff y llyfrgell a chroesawodd y gwaith adnewyddu a wnaed yn y Llyfrgelloedd ledled y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Cymeradwyo cynllun gweithredu'r strategaeth gwasanaeth y llyfrgelloedd.

130 ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR - 31 RHAGFYR 2018 (CHWARTER 3)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol drosolwg o gyflawniad y Cyngor o safbwynt ariannol a gweithredol. Roedd hyn yn seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol yma (hyd at 31 Rhagfyr 2018).

Aeth y Cyfarwyddwr ati i drafod Crynodeb Gweithredol yr adroddiad yn fanwl, gan gynnwys cynnydd a data ariannol mewn perthynas â'r blaenoriaethau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Tynnodd y Swyddog sylw at eithriadau ym mhob un o'r adrannau manwl er mwyn yr Aelodau.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol am y pryderon a'r pwysau gyda'r gwasanaethau i oedolion a dywedodd, er bod tanwariant o fewn y gwasanaethau i blant ar hyn o bryd, mae modd i hyn amrywio ar unrhyw adeg o ganlyniad i leoli unrhyw blant 'y tu allan i'r sir' sy'n derbyn gofal. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y dangosyddion perfformiad o 36% sydd ddim yn cyrraedd y targed ar hyn o bryd ond rhoddodd sicrwydd i Aelodau ar y rhesymeg dros hyn. Daeth yr Aelod o'r Cabinet â'i anerchiad i ben drwy ddiolch i'r swyddog am yr adroddiad a oedd, yn ei farn ef, yn sefyllfa gadarnhaol i'r Cyngor.

Ailadroddodd yr Arweinydd y pryderon mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol oedolion a'r cyllid a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn gobeithio ei weld yn parhau.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

Refeniw

1. Nodi a chytuno ar sefyllfa refeniw'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer y Cyngor ar 31 Rhagfyr 2018 (Adran 2 o Grynodedb Gweithredol yr adroddiad) a nodi bod arian ychwanegol untro gan Lywodraeth Cymru wedi'i ymgorffori i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yn y sefyllfa

yma.

2. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau sydd wedi eu rhestru yn Adrannau 2a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad, sy'n uwch na'r trothwy o £0.100 miliwn yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor.

Cyfalaf

3. Nodi sefyllfa alldro cyfalaf y Cyngor fel y mae ar 31 Rhagfyr 2018 (Adrannau 3a-f o'r Crynodeb Gweithredol).
4. Nodi manylion Dangosyddion Materion Darbodusrwydd Cylch Rheoli'r Trysorlys fel y mae ar 31 Rhagfyr 2018 (Adran 3g o'r Crynodeb Gweithredol).

Blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol

5. Nodi sefyllfa chwarter 3 ynghylch y cynnydd mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol cytûn (Adrannau 5a–d o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad), Mesurau Cenedlaethol Eraill (Adran 5e o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad) a chymharu targedau 2018/19 â'r flwyddyn flaenorol a gwybodaeth am gyfartaledd cyflawniad Cymru gyfan (Adran 5f o'r Crynodeb Gweithredol yn yr adroddiad).

131 ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU - IECHYD A LLES

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol yr Aelodau at yr adroddiad ger eu bron a oedd yn nodi casgliadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu Iechyd a Lles a gynhaliodd adolygiad mewn perthynas â darparu gwelyau nyrsio EMI ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg i'r Pwyllgor am ei waith a chytunodd i fynd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i ddarparu ymateb ffurfiol gan y Cabinet.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Craffu Iechyd a Lles sydd ynghlwm fel Atodiad 1 o'r adroddiad hwn.
2. Cytuno â phob un o'r argymhellion a amlinellir isod mewn egwyddor, yn amodol ar ystyriaeth bellach gan ddeiliad Portffolio'r Cabinet ar gyfer y maes. Rhoddir ymateb manwl i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ar ôl hynny: -
 - I. Bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i fonitro'r achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ac yn enwedig materion yn ymwneud ag argaeledd darparu cartrefi nyrsio EMI;
 - II. Bod y Cabinet yn sicrhau bod yr argymhellion yn Natganiad Sefyllfa Marchnad Cwm Taf yn cael eu cyflawni, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hanelu at y ddarpariaeth fwy arbenigol a'r angen am ragor o ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gofal cymhleth h.y. dementia a dementia nyrsio.

132 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Rhoddodd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o'r Cabinet am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu trafod yn ystod blwyddyn y Cyngor 2018 - 19 gan nodi y bydd defnyddio'r rhaglen yn helpu gyda didwylledd a thryloywder y broses gwneud penderfyniadau yn y Cyngor ac yn rhoi rhagor o gyfle i graffu ymlaen llaw.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Atodiad 1 o'r adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bydd modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2018-19 (gan addasu'n briodol ar ôl yr angen) a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**